

**Faint o Ddyluanod Gwynion sy'n nythu yng ngogledd ddwyrain Cymru?**

**Wyddom ni ddim. Helpwch ni i ddarganfod faint sydd yma drwy ateb y cwestiynau syml hyn:**

- Oes gennych gynefin bwydo addas gerllaw?  
**Oes Nac Oes**
- Oes gennych chi Dylluan Wen yn nythu ar eich tir?  
**Oes Nac Oes**
- Hoffech chi gael gyngor ynghylch cynefin addas a safleoedd nythu ar gyfer y Dylluan Wen?  
**Hoffwn Na Hoffwn**
- Hoffech chi i ni osod bocs nythu ar eich eiddo?  
**Hoffwn Na Hoffwn**
- Fyddech chi'n fodlon i un o'n gweithwyr maes fonitro'ch safle nythu?  
**Byddwn Na Fyddwn**

*Eich manylion*

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

..... Côd Post: .....

Rhif ffôn: .....

Cyfeiriad e-bost: .....

.....

DS: Bydd eich manylion yn cael eu cadw ar ein bas data a dim ond i'n partneriaid prosiect y byddant ar gael. Dychwelyd y bonyn at:



**5 cam i annog Tylluanod Gwyn**

- Darparu cynefin bwydo addas.

- Gadael talarau caeau heb eu chwistrellu a heb eu torri ac felly gynyddu poblogaeth mamaliaid bychain, ysglyfaeth y Dylluan Wen.

- Mae ar y Dylluan Wen angen man gwastad i ddodwy ei hwyau, fel rheol dros 3 metr uwchben y ddaear. Gallai lleoedd felly fod mewn wal ddwbl neu mewn byrnau gwellt yn cael eu cadw mewn ysgubor, ond byddai bocs nythu wedi ei wneud yn arbennig, naill mewn adeilad neu ar goeden, yn well ac yn fwy diogel. Gallwn gyflenwi a gosod bocs nythu i chi.

- Mae'r Dylluan Wen mewn perygl o foddï mewn cafnau dwr. Gellir rhwystro hyn drwy adael i ddarn o bren neu grât llefrith plastig nofio yn y cafn.
- Peidio â defnyddio gwenwyn llygod gan y gall Tylluanod Gwynion farw ar ôl bwyta llygod wedi eu gwenwyno.



**Sut ydych chi'n gwybod os oes Tylluan Wen yn nythu acw?**

Dyma restr o nodweddion syml allai ddangos a yw'r Dylluan Wen yn gymydog i chi:

- Carthion – sblatiau mawr gwyn – yn cael eu galw'n gyffredinol yn wyngalch – ar wyneb caled neu ddarnau gwyn llai o faint ar wair neu wellt. Gallai'r carthion redeg i lawr coed y to islaw clwyd y Dylluan Wen, gan ymddangos fel llinellau gwyn fertigol.



- Pelenni – gweddillion ysglyfaeth y Dylluan Wen wedi eu chwydu, gan gynnwys blew ac asgwrn, mewn mannau clwydo. Mae maint pelen Tylluan Wen yn amrywio o faint ewin bawd i faint bawd cyfan, ac mae o liw du gloyw pan yn ffres.

- Plu – Mae plu adenydd y Dylluan Wen yn nodweddiadol iawn.

Byddwch yn arbennig o ofalus i beidio ag aflonyddu ar adar sy'n nythu o fis Mawrth tan fis Awst. Dyma'u priif dymor nythu. Mae'r Dylluan Wen yn cael ei gwarchod o dan y gyfraith gan Atodlen 1, Rhan 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Dim ond pobl gyda'r drwydded Atodlen 1 briodol sydd â hawl i archwilio safleoedd nythu. Mae gan ein gweithwyr maes drwyddedau o'r fath.



**Cynefin**

*Porfa garw – cynefin bwydo da ar gyfer Tylluanod Gwynion*



Mae Tylluanod Gwynion yn byw'n fodlon iawn gyda phobl, gan ddefnyddio adeiladau megis adeiladau fferm i glwydo yn ystod y dydd ac fel safleoedd nythu. Mae'n well ganddyn nhw adeiladau fferm traddodiadol. Fodd bynnag, maent hefyd yn fodlon defnyddio adeiladau newydd neu ysgubor wedi ei haddasu os ceir digon o ddarpariaeth. Ar gyfer nythu, mae arnyn nhw angen man tywyll diogel, uchel oddi ar y ddaear mewn adeilad. Maen nhw hefyd yn nythu mewn tyllau mawr mewn hen goed. Byddant yn defnyddio'r safleoedd hyn fel noddfa ar gyfer hela ar y tir cyfagos os oes yno gynefin addas ar gyfer eu hysglyfaeth, sef mamaliaid bychain.

*Mae tir hela'r Dylluan Wen yn cynnwys cymysgedd o'r cynefinoedd canlynol:*

- porfa arw, gyda phoblogaeth uchel o lygoden y gwair
- porfa laith, dwmpathog mewn porfa wedi ei braenaru neu borfa sy'n cael ei phori'n ysgafn
- talarau yn llawn chwyn mewn caeau
- gwrychoedd gyda lleiniau garw
- ymylon coetir
- caeau sofr
- ffosydd draenio
- tir o amgylch adeiladau fferm

Yn y gorffennol roedd gweld y Dylluan Wen yn beth cyffredin ar ffermdir yng ngogledd ddwyrain Cymru ac roedd yn denant ffyddlon ar lawer o adeiladau fferm. Efallai i chi weld yr aderyn ysbennydd hwn ychydig ar ôl iddi nosi, neu ychydig cyn y wawr.

Mae'r Dylluan Wen wedi prnhau. Rydym eisiau gwybod faint o Dylluanod Gwynion sydd gennym yn ein hardal erbyn hyn. Dyma lle gallwch chi helpu, drwy roi gwybod i ni a oes Tylluanod Gwynion yn nythu ar eich tir.

Mae'r daflen hon yn rhoi ychydig o gamau syml y gallwch eu cymryd i ddarganfod a oes Tylluan Wen yn byw acw. Ar gefn y daflen mae holiadur Rhadbost a gallwch ei gwblhau mewn 5 munud. Bydd hwn yn rhoi syniad i ni faint o Dylluanod Gwynion sydd yng ngogledd ddwyrain Cymru. Helpwch ni i fonitro ein poblogaeth o Dylluanod Gwynion.



**Y Dylluan Wen**



yng ngogledd ddwyrain Cymru

Partneriaid y prosiect hwn yw:

Statws a dosbarthiad Tylluanod Gwynion yng ngogledd ddwyrain Cymru